# Ysgol Treborth School

Bangor,
Gwynedd.
LL57 2 RX
Ffôn/Tel: 01248 353527
Ffacs/Fax: 01248 372535

Pennaeth/Headteacher • J.O. Grisdale, B.Sc.


11 Mehefin 1999

Mr.Iwan Roberts,
Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol,
Adran Addysg a Diwylliant,
Cyngor Gwynedd,
Caernarfon,
Gwynedd. LL55 ISH

Trac 1175

Derbyniwyd 14 - 6 - 1999

Annwyl Mr.Roberts,

**Lon Las Cymru**

Yn dilyn eich ymweliad i drafod y sefyllfa gyda'r llywodraethwyr, hoffwn ymateb ar eu rhan gyda'r sylwadau canlynol sy'n adlewyrchu pwyntiau a wnaethpwyd dros flwyddyn yn ôl.

1. Dros y flwyddyn diwethaf mae'r ysgol wedi symud ymlaen i ddiogelu eu ffiniau gyda grantiau diogelwch drwy'r Swyddfa Gymreig. Hynny yw, symud ymlaen yn fwriadol i rwystro mynediad drwy godi ffensiau a chlwydi er mwyn rhwystro mynediad cyhoeddus i dir yr ysgol.

2. Mae hyn yn adlewyrchu symudiadau cyffelyb ar diroedd y mwyafrif o ysgolion yn genedlaethol. Ar hyn o bryd mae tramwyo cyhoeddus yn digwydd ac mae'r ysgol yn symud i'w lleihau. Gall rhoi hawl cyhoeddus i dramwyo ar gyrion ysgol breswyl arbennig achosi mwy o drafferthion wrth wahodd dieithriaid amheus i adael y safle.

3. Byddai mynediad i dir yr ysgol yn agos i drac rheilffordd yn debygol o hwyluso mynediad i'n disgyblion i fan peryglus ac yn gallu hwyluso ffordd arall iddynt redeg i ffwrdd. Pa mor ddiogel bynnag yr honnir y gellir diogelu y llwybr o'r rheilffordd erys mannau gwan amlwg.

4. Oherwydd bod sawl anhawster wedi codi gyda'r llwybr yn ardal Treborth, tybed a oes modd cyfeirio y Lon Las ar hyd y ffordd fawr rhwng Gwesty'r Antelope a phentref Treborth.

Yn gywir,

PENNAETH